

# technocamps

Inspiring | Creative | Fun

Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



## Deallusrwydd Artiffisial Awgrymiadau Defnyddiol



Deallusrwydd Artiffisial yw datblygu peiriannau a meddalwedd deallus. Datblygodd Alan Turing Brawf Turing sy'n asesu a yw'n amhosib gwybod y gwahaniaeth rhwng peiriant a pherson, ac os felly a ddylid ystyried bod y peiriant yn "ddeallus". A yw cyfrifiaduron yn ddeallus ai peidio? Mae edrych ar offer ar-lein megis Chatbots, gan gynnwys "Turi" a ddatblygwyd gan Brifysgol Aberystwyth, yn ein helpu i edrych ar waith Turing ar ddeallusrwydd peiriannau. Mae'r offer hyn yn efelychu sgwrsiau, un ai trwy destun neu sain, gan ddynwared sgwrs rhwng un neu ragor o bobl. Maent yn chwilio am allweddeiriau yn y sgwrs er mwyn ymateb yn unol â hynny, gan hefyd chwilio am batrymau penodol yn strwythur yr ymatebion a ymgorfforwn i'n hiaith naturiol.

### Alan Turing

Gwnaeth Alan Turing, a ystyrir gan nifer yn y diwydiant yn "Dad Cyfrifiadureg", chwarae rôl bwysig yn natblygiad Cyfrifiadureg. Ymysg nifer o greadigaethau a darganfyddiadau, dyluniodd "Brawf Turing" yn 1950 sef prawf sy'n asesu deallusrwydd peiriant. Mae'n cynnwys beirniad (person) sy'n dechrau sgwrs testun ag A a B. Mae'r beirniad hwn mewn gwirionedd yn ymgysylltu â pherson a pheiriant, ond nid yw'r beirniad yn gwybod pa un yw p'un.

A yw ymatebion A a B yn nodweddiadol o ymatebion gan bobl?

Os na all y beirniad wahaniaethu rhwng y peiriant a'r person, ystyrir bod y peiriant wedi llwyddo yn y prawf a chaiff ei ystyried yn ddeallus! Fodd bynnag, mae'r prawf yn profi a yw'r peiriant yn ymateb fel person yn unig. A ydych yn credu mai'r un peth yw ymateb fel person ac ymddwyn yn ddeallus?

Mae'r ChatBot "Cleverbot" ar gael yma:

[www.cleverbot.com](http://www.cleverbot.com)

Mae'r wefan hon yn eich galluogi i deipio eich cwestiynau neu eich sgwrs gyffredinol i'r blwch testun. Gwasgwch y botwm "Enter" ar y bysellfwrdd ac arhoswch am ymateb. Rhowch gynnig ar gynnal eich sgwrs eich hun i weld sut y mae'r "Cleverbot" yn ymateb i ymatebion a strwythurwyd yn wahanol.



## Example

User: "How does it feel to be a computer?"

Cleverbot: "Pretty great. I can process so much information at one time. Its incredible."

Mae'r ChatBot "JabberWacky" ar gael yma:

[www.jabberwacky.com](http://www.jabberwacky.com)

Mae'r wefan hon hefyd yn eich galluogi i gynnal sgwrs â'r cyfrifiadur. Mae ymatebion y ChatBot hwn lawer yn gyflymach a gallwch newid yr emosiynau a'r ymatebion yn unol â hynny. Rhowch gynnig ar gynnal eich sgwrs eich hun â JabberWacky i weld pa mor wahanol y mae'r ChatBot hwn yn ymateb i ymatebion. Gallwch hefyd ryngweithio gyda'r Avatar Deallusrwydd Artiffisial, George!



## Example

User: "How does it feel to be a computer?"

Jabberwacky: "I'm not a computer. I'm human"

Peidiwch ag anghofio rhoi gwybod i ni am eich sgwrsiau a pha mor ddeallus y credwch yw'r ChatBots rydych wedi bod yn eu defnyddio?

# technocamps



[www.technocamps.com](http://www.technocamps.com)

